3.31

# Can Newydd,

YN RHODDI HANES AM

# DAVID JONATHAN,

YR HWN A GAFODD EI

## *LOFRUDDIO*

Yn agos i'r Rhosmaen, yn mhlwyf Llandilo Fawr,

Ar Nos Fercher, y 12fed o Dachwedd, 1834.

---

CENIR AR 'BRYNIAU'R IWERDDON.'

---

TRIGOLION Cymru dirion cydneswch oll y'mla'n,
Mae gennyf hanes greulon i'w hadrodd 'nawr ar gân,
Sef mwrddrad annhrugarog gerllaw Llandilo Fawr,
Mae'n peri gofid calon i roddi'r hanes 'lawr.

Ei enw oedd David Jonath, goddefodd ddirfawr bo'n,
A'i ladd mewn modd truenus, arswydus ydyw son,
Wynebu'r farn drag'wyddol a myn'd i wyddfod Duw,
Heb gael ystyried munud am adael tir y byw.

Llansadwrn oedd y pentref lle'r oedd yn byw yn awr,
A threulio'i ddyddiau olaf mewn heddwch ar y llawr,
Yn meddwl byw yn dawel, heb ofni gelyn mwy,
Na chwrdd âg unrhyw fradwr i roddi marwol glwy'.

Ond cwrdd a wnaeth â'i ddiwedd heb feddwl ynddo'i hun
Mai felly'r oedd rhaid iddo i ado'r anial blin,
A myn'd ger bron y frawdle heb rybudd yn y byd,
Er byw'n drag'wyddol ddedwydd, neu fod dan wg a llid

Yr ydoedd wedi treulio blynyddau meithion mawr
I ymladd dros ei frenin, a chadw Prydain Fawr,
Ymdrechu cadw'r gelyn rhag torri mewn i'n tir,
A cheisio cael tawelwch a gweled heddwch hir.

Ond wedi iddo dreulio ei ddyddiau yn y gâd,
A sefyll mewn ffyddlondeb yn wrol dros ei wlad,
Fe ga'dd ei ladd yn greulon gerllaw ei artre'i hun,
A myn'd i'r byd trag'wyddol trwy ddwylaw ei gyd-ddyn

Lladrattodd y fileiniaid feddiannau'r gwr i gyd,
Ei gôt oddiam ei gefn gymmer'sant yr un pryd,
A chym'rent heb dosturi ei 'sgidiau oddiam ei dra'd,
A'r arian o'i logelli mewn eithaf llid a brad.

Ond nid oedd hyn yn ddigon, rhaid iddynt wneuthur mwy,
Rhaid ydoedd i'r fileiniaid roi iddo farwol glwy',
Ei drin mewn modd echrydus nes dwyn ei fywyd pur,
Mae'n flinder i bob calon i feddwl am ei gur.

'Nol iddynt ddwyn ei fywyd ei daflu wnaent i'r ffos,
I bwll o ddwr ysgeler, yn nyfnder maith y nos;
'Doedd neb dosturiai wrtho na gwrando ar ei gri,
Dim neb i roddi cymmorth i rwystro'r weithred ddu.

Truenus oedd yr olwg ei weled yn y dwr,
Yn gorwedd boreu drannoeth, yn agos noeth yn siwr,

X20520 7900

Dim gobaith am gael ana'l na bywyd yn ei waed,
'Roedd yno'n hollol farw, yn oer o'i ben i'w draed.

Galarus ydyw meddwl fod neb o fewn y byd
Yn bod mor galon-galed ac yspryd llawn o lid,
Yn rhoddi lle i'r gelyn a gwrando arno ef,
Nes gwneuthur pob creulonder yn ofer dan y nef.

Ond nid yw Ceidwad Israel yn huno unrhyw awr,
Mae ef yn gwel'd y cwbl gyflawnir ar y llawr,
Er iddo oedi 'chydig, i'r goleu daw pob peth,
A phawb o'r drwg weithredwyr a fernir yn ddifeth.

Gwyr mawrion tref Llandilo, bon'ddigion penna'r sir,
O'u cwsg ddeffroent yn union er ceisio dal y gwyr,
Ac wedi bod yn ddyfal yn chwilio yn ddifeth,
Ca'dd pedwar eu cymmeryd i fynu am y peth.

Mae rhai'n yn *Jail* Caerfyrddin yn disgwyl am y dydd
I'w profi gan y barnwr ynghylch y weithred brudd;
Diammeu cânt hwy yno gyfiawnder yn ddible,
Daw pob peth cudd i'r amlwg, hyderir yn y lle.

Mae'n ofid i bob calon i feddwl ar un pryd
Fod rhai yn lladd eu gilydd er mwyn meddiannau'r byd,
Fod rhai 'n ein gwlad yn wastad yn dilyn llwybrau Cain,
Heb feddwl fod yr Arglwydd yn rhoi ei nod ar 'rhai'n.

Mae rhwymau'n gorphwys arnom i weddio yn ddibaid
Am i ni gael digonedd o'r hyn sydd angenrhaid,
A deisyf ar i'r Arglwydd ein cadw rhag pob drwg,
Rhag i ni gael diodde'n drag'wyddol dan ei wg.

Mae'r llew rhuadwy'n rhodio gan geisio'n hudo o hyd
I wneuthur pob drygioni a bryntni yn y byd;
Ac wedi'n cael i'r fagl a'n dwyn i ddrysni blin,
Mae'n chwerthin am ein pennau—y gelyn drwg ei lun.

Chwychwi yr ie'ngctyd hawddgar, sy 'nawr yn mlodeu'ch oes,
Gweddiwch am gael nodded y Gwr fu ar y groes,
Ymdrechwch yn feunyddiol a haeddol am ei hedd,
Ac yna cewch lawenydd yr ochr draw i'r bedd.

A chwi rieni mwynion rhowch weddi tua'r nef,
Ar fod i'ch plant anwylaidd gael meddu'u heddwch ef,
Ac ar i'r Yspryd Sanctaidd eu tywys yn ei law
Trwy fyd o demtasiynau i mewn i'r Ganaan draw.

Os cawn ni Iesu'n gyfaill, gorchfygwn Satan cas,
Cawn ganu buddugoliaeth wrth fyn'd o'r byd i ma's,
A chawn ei wel'd yn eglur mewn ardal bur uwch ben,
A chanu clod yn wresog i'w enw ef. Amen.

DIWEDD.

*D. Harris, Argraffydd, Porth-Tywyll, Caerfyrddin.*